# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 25 Ebrill 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(59)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.30.

Gofynnwyd cwestiynau 1-6 a 8-15. Ni ofynnwyd cwestiwn 7. Cafodd cwestiwn 11 ei ateb gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol.

### 2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.13.

Gofynnwyd y 2 gwestiwn.

### 3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 14.17.

Gofynnwyd y 4 cwestiwn cyntaf.  Tynnwyd cwestiwn 5 yn ôl. Cafodd cwestiynau 1-3 eu hateb gan Peter Black. Cafodd cwestiwn 4 ei ateb gan Rhodri Glyn Thomas.

### 4. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 14.28.

**NDM4962 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Chwefror 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 15.19.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4963 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

1. Yn nodi bod yr hinsawdd economaidd anodd yn tynnu sylw at bwysigrwydd bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu mewn ffordd sy'n sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.

2. Yn cymeradwyo unrhyw ymdrechion gan awdurdodau lleol i wneud arbedion er mwyn darparu gwerth am arian y trethdalwyr;

3. Yn nodi ymhellach fod gormod o wastraff o hyd ar lefel Llywodraeth Leol; a

4. Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i arwain drwy esiampl wrth yrru'r agenda gwerth am arian yn ei blaen.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 38 | 51 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 4.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 0 | 17 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r gwerth am arian sy'n cael ei gyflawni gan awdurdodau a arweinir gan y Democratiaid Rhyddfrydol sydd wedi'u galluogi i sicrhau codiadau isel yn y dreth gyngor dros y pedair blynedd diwethaf.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 4 | 9 | 38 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4963 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

1. Yn nodi bod yr hinsawdd economaidd anodd yn tynnu sylw at bwysigrwydd bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu mewn ffordd sy'n sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.

2. Yn cymeradwyo unrhyw ymdrechion gan awdurdodau lleol i wneud arbedion er mwyn darparu gwerth am arian y trethdalwyr; a

3. Yn nodi ymhellach fod gormod o wastraff o hyd ar lefel Llywodraeth Leol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 13 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**6. Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16.19.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4964 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod:

a) gwerth y gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol;

b) bod awdurdodau lleol yn hanfodol i gynaliadwyedd economïau lleol;

c) ei bod yn bwysig bod awdurdodau lleol yn gyflogwyr da, cyfrifol; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo arfer da ymysg awdurdodau lleol, gan gynnwys creu partneriaethau, sy'n diwallu anghenion lleol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 34 | 0 | 17 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 17.13.

**7. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 17.16.

**NDM4961 Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**

Troi Cefn neu Wthio i’r Cyrion: Beth sy’n digwydd i’r Pedwerydd Ystâd yng Nghymru?

Dadl ar rôl y cyfryngau yng Nghymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:46

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, ddydd Mawrth, 1 Mai 2012**